



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

28 Gorffennaf 2017

Annwyl ,

ATISN 11377 Cymraeg a Saesneg i Oedolion

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar **3 Gorffennaf 2017** am '**Cymraeg a Saesneg i Oedolion**'. Mae'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani wedi'i hamgáu.

Gwersi Cymraeg

Nid oes gan Lywodraeth Cymru wybodaeth am y cyfanswm sy'n cael ei wario ar ddarparu gwersi Cymraeg rhad ac am ddim yng Nghymru, nac am nifer yr oedolion sydd wedi cofrestru i dderbyn gwersi Cymraeg am ddim. Fodd bynnag, efallai y bydd y wybodaeth hon ar gael gan y darparwyr unigol eu hunain.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i gefnogi'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion.

Mae'r cyfansymiau a ddarperir fel a ganlyn:

2015/16 – £9,176,377

2016/17 – £8,810,000

Nid oes polisi cenedlaethol ar gyfer codi tâl ym maes Cymraeg i Oedolion. Fodd bynnag, mae hyn yn fater y bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn ei ystyried ac yn gweithredu arno dros y blynyddoedd i ddod. Ar hyn o bryd, felly, mater i bob darparwr unigol yw ffioedd. Mae rhai cyrsiau'n cael eu darparu am ddim; codir tâl gostyngedig ar rai dysgwyr mewn amgylchiadau arbennig, ac mae cefnogaeth ar gael i ddysgwyr sydd angen cymorth.

Gwersi Saesneg (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill)

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i golegau ddarparu addysg ôl-16. Bydd y colegau yna'n cynnig darpariaeth i ddiwallu anghenion eu hardaloedd lleol. Cynigir 'Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill' am ddim hyd at lefel 'ymarferol'; hynny yw'r gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Saesneg neu Gymraeg a defnyddio mathemateg ar y lefel sy'n angenrheidiol i ddod ymlaen mewn gwaith ac yn y gymdeithas.



BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Sarn Mynach
Llandudno Junction
Conwy
LL31 9RZ

Ffôn • Tel

Gwefan • website:
www.cymru.gov.uk

Yn y cyfnod o Awst 2015 tan Gorffennaf 2016, sef y set ddata olaf i gael ei chyflawni, gwnaeth cyfanswm o 6,300 o ddysgwyr o leiaf un cwrs Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill. Mae'r cyrsiau hyn yn rhai y gellid eu cyllido, ond nid yw'n bosibl inni wybod yn union faint o gyllid a wariwyd ar y ddarpariaeth hon, a hynny gan fod colegau'n aml yn darparu mwy o gyrsiau nag yr ydym ni yn rhoi cyllid iddynt ar eu cyfer. Hynny yw, caiff y ddarpariaeth ei chyflawni am ddim, ond gall y costau gael eu talu gan gyllid Llywodraeth Cymru neu gan y coleg ei hun.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: FreedomOfInformationOfficer@cymru.gsi.gov.uk

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir